

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Clerk Mai Owen 01407 740739 / 07795260139 [llanfairnb@hotmail.co.uk](mailto:llanfairnb@hotmail.co.uk) , clerk@llanfairynneubwll.org

---

### Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Nos Fawrth 10 o Fai 2022.

**Presennol:** Cynghorydd Dyfed Williams Parry – Cadeirydd

**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Sharon Parry and Einir Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cyng. K. Taylor a Mai Owen (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** dim.

#### 2. Ethol Cadeirydd 2022 – 2023

**Cadeirydd** - Gyda Cyng. Sharon Parry yn cynnig a Cyng. Gwilym O. Jones yn eilio fe etholwyd Cyng. Siân Enfys Jones yn Gadeirydd.

#### 3. Ethol Is- Gadeirydd 2021- 2022

**Is-gadeirydd** - Gyda Cyng. Gwilym O. Jones yn cynnig a Cyng. William Victor Owen yn eilio fe etholwyd Cyng. Celfyn Furlong yn Is-gadeirydd.

Diolchodd Cyng. Dyfed Williams yr Aelodau a'r Clerc am eu cefnogaeth yn ystod ei dymor fel cadeirydd.

**Cadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan y Cyng. Siân Enfys Jones.**

4. **Datganiad Derbyn Swydd** – Llofnodwyd y rhain gan bob Aelod.

5. **Datganiad o ddiddordeb** - dim.

6. **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 18.5.2021** – dyrbyniwyd rhain ym Mis Mehefin 2021

7. **Etholwyd Cynrychiolwyr fel a ganlyn:**

7.1 Un Llais Cymru – Cyng. Celfyn Furlong.

7.2 Aelod Cyllid – Cyng. Dyfed Williams.

7.3 Llywodraethwr Ysgol y Tywyn - Cyng. Dyfed Williams a Cyng Sharon Parry ar ran y Cyngor Sir.

7.4 Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan – Cyng. Celfyn Furlong a William Victor Owen.

7.5 Fforwm Cyswllt Cyngor Tref a Chymuned - Cyng. Dyfed Williams and Gwilym O. Jones.

7.6 Pencampwr yr Iaith Gymraeg - Cyng. Gwilym O. Jones.

8. **Dogfennau Statudol**

Signature .....Chairman

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Clerk Mai Owen 01407 740739 / 07795260139 [llanfairnb@hotmail.co.uk](mailto:llanfairnb@hotmail.co.uk) , clerk@llanfairynneubwll.org

---

- 8.1 Rheolau Sefydlog - dim newid
- 8.2 Rheoliadau Ariannol - dim newid
- 8.3 Polisi Lwfans Aelodau – i'w ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau a gyflwynwyd gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Cymru).
- 8.4 Asesiad Risg – roedd gwaith i'w wneud ar hwn
- 8.5 Cod Ymddygiad - dim newid.
- 8.6 Cofrestr Lletygarwch -. Dim byd i'w gynnwys ar y Gofrestr ar gyfer 2020/21.
9. **Hyfforddiant** - Roedd yn ofynnol i'r cyngor lunio cynllun hyfforddi ar gyfer pob aelod, a byddai'r clerc yn dosbarthu'r rhestr o gyrsiau sydd ar gael drwy Un Llais Cymru.
10. **Seddi Gwag** - roedd y rhain wedi'i hysbysebu gyda dyddiad cau o 23 Mai 2022
11. **Cytundeb Gwaith y Clerc** – roedd hyn i'w drafod yn y cyfarfod nesaf, a byddai'r clerc yn anfon Canllawiau NALC ar gyflogau a graddio staff.
12. **Parc Solar Traffwll**

Cafwyd hysbysiad gan Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PEDW) eu bod wedi dilysu cais Traffwll Solar am Orchymyn Datblygu Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) (Cyf. DNS/3217391). Roedd angen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 16.05.2022. Yn dilyn trafodaeth fanwl, cytunwyd i ailadrodd y pryderon fel y'u cofnodwyd yng Nghofnodion y Cyngor Cymuned ar 7 Medi 2021.
13. **Ceisiadau Cynllunio**
  - 13.1 **HHP 2022/114 Tyn y Waun, Ffordd Caergybi, Caergeiliog**

Cais llawn ar gyfer codi anecs hunan-gynhaliol – dim gwrthwynebiad ar yr amod na fydd yn cael ei ddefnyddio fel llety gwyliau.
  - 13.2 **FPL/2022/11 RAF Valley**

Cais llawn ar gyfer dymchwel y tŷ giât bresennol a'r ciosg ger y brif fynedfa, codi tŷ giât newydd â chanopi, codi ciosg newydd ger y brif fynedfa â chanopi ynghyd â gwaith tirlunio caled - dim gwrthwynebiad.
14. **Materion Ariannol.**
  - 14.1 Cofrestr Asedau - roedd hwn wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.
  - 14.2 Yswiriant – I'w ei adnewyddu o 1 Mehefin 2022, cytunwyd i dderbyn y dyfyniad a roddwyd gan yswiriant BHIB

Signature .....Chairman

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Clerk Mai Owen 01407 740739 / 07795260139 [llanfairnb@hotmail.co.uk](mailto:llanfairnb@hotmail.co.uk) , clerk@llanfairynneubwll.org

---

14.3 Taliadau i'w gwneud:

Cyflog Ebrill	£247.87	BHIB - Yswiriant	£1840.16.
---------------	---------	------------------	-----------

Byddai'r clercc yn gwneud taliadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol os byddent yn codi cyn y cyfarfod nesaf.

**15. Cyfarfod Nesaf - 21 Mehefin 2021 oni bai bod materion brys yn codi.**

Signature .....Chairman